**COFNODION CYFARFOD ANARFEROL Y CYNGOR**

**A GYNHALIWYD AR 16 HYDREF 2023**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths (Cadeirydd) (ar Zoom)

Y Cynghorydd Rory Francis

Y Cynghorydd Mark Thomas

Y Cynghorydd Troy MacLean

Y Cynghorydd Gareth Davies

Sioned Graham-Cameron, Clerc y Cyngor

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Eifiona Davies, Linda Ann Jones, Dafydd Dafis, Morwenna Pugh.

**2. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.

**3. Materion y dylid eu hystyried yn y cyfarfod ar frys.**

Nid oedd unrhyw faterion o'r fath.

**4. Tŷ'r Wern, Cais Cynllunio Hen Eglwys Llan Ffestiniog**

Roedd pedwar cynghorydd wedi gwneud cais dan gymal 21 Rheolau Sefydlog y Cyngor Tref i gael ail-ystyried y penderfyniad a gymerwyd ar y cais cynllunio uchod, gan ofyn am gynnal cyfarfod anarferol o'r Cyngor.

Dywedodd y Cadeirydd ar y cychwyn ei fod yn bleser ganddo weld Andrew Williams, rheolwr y prosiect yn y cyfarfod blaenorol, a phwysleisiodd yr angen i siarad a chyfathrebu. Pe bai'n gwybod ymlaen llaw y ffeithiau a gyflwynwyd yn y cyfarfod hwnnw, byddai wedi pleidleisio o blaid y cais. Nid oedd yn ymwybodol o'r wybodaeth a gyflwynwyd gan Andrew, a dywedodd bod cydweithredu a chydweithio yn bwysig iawn, fel nad oedd camddealltwriaeth. Cydweithio fel hyn a ddylai ddigwydd at y dyfodol. Roedd yn wers at y dyfodol, bod angen cyfathrebu gwell, a bod diffyg wedi bod o ran hynny yn yr achos hwn. Cytunodd y Cynghorydd Mark Thomas gyda phopeth a ddywedodd y Cadeirydd, a'i fod yn falch o gefnogi'r cais ar ôl clywed yr wybodaeth bellach. Dywedodd y Cynghorydd Rory Francis ei fod yn falch o glywed hynny, gan hysbysu'r cyfarfod bod Diwrnod Agored i'w gynnal yn yr eglwys ar 21ain Hydref er mwyn i bawb allu gweld y cynlluniau ar gyfer yr adeilad.

Cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd y Cynghorydd Rory Francis bod y Cyngor Tref yn anfon llythyr pellach at Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cefnogi'r cais gant y cant a chytunodd pawb.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn dymuno pob lwc i'r prosiect at y dyfodol.

**5. Holiadur Cymunedau Gwynedd**

DRAFT

Ystyriwyd holiadur a dderbyniwyd gan y Cyngor Sir ar gymunedau a wardiau a chytunwyd ar ymatebion er mwyn i'r Clerc ei gwblhau a'i anfon at y Cyngor Sir.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.11pm

DRAFFT

DRAFT